

Elin Jones AC

Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

26.05.17

Annwyl Elin

Rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu sylw'r Pwyllgor Busnes at fy mhryderon ynghylch craffu ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), y trefnwyd i gynnal y ddatl Cyfnod 1 arno ddydd Mawrth 6 Mehefin.

Y dyddiad cau ar gyfer adrodd yng Nghyfnod 1 oedd dydd Mercher 24 Mai. Ddydd Iau 25 Mai anfonodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes llythyr at y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch y newidiadau a ragwelir i'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) sy'n cyd-fynd â'r Bil.

Mae'r goblygiadau o ran cost a nodwyd yn y llythyr yn sylweddol, gyda'r arbedion a ragamcanwyd wedi lleihau, a'r costau wedi cynyddu. Y newidiadau o ran costau, fel y nodir yn llythyr y Gweinidog, yw:

- Disgwylir i'r arbedion parhaus amcangyfrifedig ostwng o £14,182,920 (fel y cyhoeddwyd yn yr RIA ym mis Rhagfyr 2016), dros y cyfnod o bedair blynedd (y cyfeirir atynt yn yr RIA), i £3,675,240 – felly o tua £3.5 miliwn y flwyddyn i tua £900,000 y flwyddyn;
- Mae disgwyl i gost gyffredinol amcangyfrifedig y Bil newid o arbediad o £4,828,480 (fel y cyhoeddwyd yn yr RIA ym mis Rhagfyr 2016) dros y cyfnod o bedair blynedd i gost o £8,279,250.

Gan fod y llythyr hwn wedi'i gyhoeddi ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adrodd yng Nghyfnod 1, ychydig cyn toriad yr hanner tymor, ni fyddaf yn cael cyfle i drafod y newidiadau hyn gyda'r Pwyllgor Cyllid cyn y ddatl Cyfnod 1. Rwy'n ei chael hi'n frawychus bod y costau hyn wedi cael eu hanfon yn y cam hwyr hwn, gan nad oes cyfle i graffu arnynt.




Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog ac wedi gofyn, ar sail y newid hwn, y costau sylweddol a'r materion ariannol eraill a gododd yn ystod y gwaith craffu yng Nghyfnod 1, ei fod yn oedi o ran cynnig penderfyniad ariannol, er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried y costau hyn yn llawnach.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor Busnes ystyried a yw'r diffyg cyfle i graffu ar gostau sylweddol o'r fath yn dderbyniol.

Rwy'n copio'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Simon Thomas'.

Simon Thomas AC

Cadeirydd

